# AR WERTH DRWY GYTUNIAD PREIFAT
# CYFLE AM DDATBLYGIAD AT DDEFNYDD CYFLOGAETH
# LLAIN 5, YSTÂD DDIWYDIANNOL CAPEL HENDRE
# CAPEL HENDRE, RHYDAMAN, SA18 3RJ
# YN AMODOL AR GAEL CANIATÂD CYNLLUNIO



- Amcan Bris - £55,000
- Cyfle cyffrous i ddatblygu ar ystâd ddiwydiannol sefydledig a ffyniannus

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# LLEOLIAD

Mae'r Eiddo wedi'i leoli ar Ystâd Ddiwydiannol Capel Hendre sydd wedi'i hen sefydlu, ac sydd tua thair milltir i'r de-orllewin o Rydaman, yng Nghapel Hendre, a wasanaethir gan yr A483. Mae'r A483 yn cysylltu â chyffordd 49 Traffordd yr M4 i'r de.

# DISGRIFIAD O'R SAFLE

Mae'r llain yn safle sydd ar lethr graddol gyda llawr caled concrit gwastad yn rhannol ac mae'n ymestyn dros arwynebedd o 0.33 hectar (0.82 erw) fel y dangosir mewn ymylon coch at ddibenion adnabod ar y cynllun.

Mae'r mynediad i'r llain o brif ffordd yr ystâd ac mae ffens balisâd fetel o amgylch terfyn y safle (cytunir ynghylch yr union ffiniau i'w trosglwyddo ar y safle).

# CYNLLUNIO

Caniateir defnyddio'r safle at ddibenion unrhyw ddefnydd o fewn dosbarthiadau B1, B2 a B8.
Bydd angen i unrhyw ddatblygiad, os yw'n briodol, gydymffurfio â Pholisi Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o ran BREEAM.

# GWASANAETHAU

Credir bod yr holl brif wasanaethau ar gael ar gyfer y plot ond dylai'r datblygwyr wneud ymholiadau eu hunain gyda'r cyfleustodau statudol ynghylch argaeledd a digonolrwydd eu cyflenwad ar gyfer y datblygiad arfaethedig.
Yn ogystal, gwerthir y plot yn amodol ar unrhyw wasanaethau presennol gan gynnwys carthffosydd sydd wedi'u lleoli o fewn y safle, a bydd yn ofynnol i'r prynwr dalu cyfran resymol tuag at gostau yn y dyfodol o ran cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu unrhyw wasanaethau a rennir a ddefnyddir.

# DULL GWAREDU – DEILIADAETH

Byddai'r llain yn cael ei gwerthu trwy Brydles Adeiladu 125 mlynedd gydag un taliad premiwm yn daladwy wrth gytuno ar brydles, a bydd opsiwn yn cael ei gynnwys yn y brydles i'r lesddeiliad gael rhydd-ddaliad y llain am rent hedyn pupur ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau'n ymarferol.
Bydd y Brydles Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i'r safle gael ei ddatblygu yn unol â'r telerau cyffredinol canlynol:

1. Mae'r datblygiad i'w gwblhau o fewn amserlen y cytunwyd arni ar ôl cwblhau'r brydles adeiladu.
2. Bydd yn ofynnol i unrhyw gynnig datblygu gael ei gymeradwyo gan y Cyngor cyn cyflwyno gwaith cynllunio. Bydd hefyd yn ofynnol i'r prynwr gael caniatâd cynllunio a'i gyflwyno o fewn cyfnod penodedig, a byddai'r datblygiad yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a orfodir ynddo.
3. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i gysylltu â'r carthffosydd dŵr brwnt a dŵr wyneb os bydd unrhyw un o'r rhain yn bresennol yn y safle o'i dir cyfagos a gedwir. Ni ddylai adeiladau gael eu hadeiladu dros unrhyw garthffosydd.
4. O dan delerau'r trosglwyddiad a'r brydles adeiladu, bydd yn ofynnol i'r lesddeiliad/prynwr dalu cyfran deg a rhesymol tuag at y gost o gynnal a chadw ffordd yr ystâd sydd heb ei mabwysiadu.
5. Os yw'r datblygiad yn cynnwys defnyddio ardaloedd allanol ar gyfer gweithgynhyrchu neu storio, mae'n rhaid i'r prynwr ddarparu sgrinio digonol.
6. Bydd pob parti'n gyfrifol am ei gostau ei hun.

Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn unrhyw gynnig ac mae'n cadw ei hawl i werthu'r safle drwy broses dendro gystadleuol os bydd dau neu ragor o bartïon â diddordeb.
Os bydd angen proses dendro, bydd matrics sgorio yn cael ei ddarparu i unrhyw ddarpar brynwr a bydd y broses o ddewis y datblygwr a ffefrir yn seiliedig ar y prisiau a gyflwynwyd a'r cynigon datblygu



Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn unrhyw gynnig ac mae'n cadw ei hawl i werthu'r safle drwy broses dendro gystadleuol os bydd dau neu ragor o bartïon â diddordeb.
Os bydd angen proses dendro, bydd matrics sgorio yn cael ei ddarparu i unrhyw ddarpar brynwr a bydd y broses o ddewis y datblygwr a ffefrir yn seiliedig ar y prisiau a gyflwynwyd a'r cynigon datblygu

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Peter Edwards
Rhif ffôn y Rheolwr Prisio : 01267 246254 / 07789 371171
pedwards@sirgar.gov.uk

Bydd angen i chi weithredu'n ddwyieithog yn unol â pholisïau'r Cyngor gan gynnwys rhoi arwyddion dwyieithog y tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Mae gwasanaeth cymorth a chyngor yn ogystal â chyfieithu a phrawf-ddarllen am ddim ar gael. I gael gwybodaeth, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar 'Y Gymraeg Mewn Busnes'.

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes y cyfnewidir contractau. Nid oes rheidrwydd arno i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| Ttitle: Plot 5 Capel Hendre Industrial Estate | |
| Dyddiad/Date: 05/03/2024 | N / W E / S |
| Cyf./Ref. HI/PAE | |
| Graddfa/Scale - 1:1250 | |

